# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 11 Rhagfyr 2023 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 30 Ionawr 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 5 Chwefror 2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor

**PWNC** Ymrwymo arian o gyllideb 'Lluosi' Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG

**PENDERFYNIAD –**

1. Ymrwymo £212,234 yn ychwanegol o arian o gyllideb Lluosi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG ddyrannwyd i Wynedd i'r cynllun Rhaglen Gwydnwch Cymunedol Gwynedd gan Gyngor Gwynedd.
2. Ymrwymo £58,000 yn ychwanegol o arian o gyllideb Lluosi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG ddyrannwyd i Wynedd i'r cynllun Tîm o Amgylch y Person Ifanc 2 gan GISDA Cyf.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**
**ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod Cabinet: | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd y Cyngor |
| Enw a theitl awdur yr adroddiad: | Siwan Lisa Evans<br>Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd |
| Dyddiad y cymerwyd y penderfyniad : | 11 Rhagfyr 2023 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet : |  |

**PWNC: Ymrwymo arian o gyllideb 'Lluosi' Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG**

**Argymhellion ar gyfer y Penderfyniad:**

1. Ymrwymo £212,234 yn ychwanegol o arian o gyllideb Lluosi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG ddyrannwyd i Wynedd i'r cynllun Rhaglen Gwydnwch Cymunedol Gwynedd gan Gyngor Gwynedd.
2. Ymrwymo £58,000 yn ychwanegol o arian o gyllideb Lluosi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG ddyrannwyd i Wynedd i'r cynllun Tîm o Amgylch y Person Ifanc 2 gan GISDA Cyf.

**Rhesymau dros yr angen am y Penderfyniad:**

Cytunodd Cabinet 24 Ionawr 2023 (Eitem 6) i drefn ar gyfer ymrwymo arian o ddyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

Sefydlwyd Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd i ymrwymo'r arian, gyda'u hargymhellion i'w cadarnhau drwy law Taflen Penderfyniad Aelod Cabinet gan yr Arweinydd (neu'r Cabinet pe ddymunir hynny gan y Panel).

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:**

Mae Lluosi (Multiply) yn is-thema o fewn y maes Pobl a Sgiliau yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin y DG. Bwriad Lluosi yw cefnogi oedolion i wella eu sgiliau

rhifedd. Lluosi yw'r unig ran o'r Gronfa ble mae'r gyllideb ar ei gyfer wedi ei warchod.

Ymrwymodd Cabinet 20 Gorffennaf 2023 (Eitem 5) £21,352,966 o ddyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG i 38 o gynlluniau. Roedd y cynlluniau llwyddiannus yn cynnwys dyraniad o £1,277,195 o'r arian sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y rhaglen Lluosi o fewn Blaenoriaeth Fuddsoddi Pobl a Sgiliau.

Mae £1,665,425 o arian Lluosi yn weddill o ddyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG ar gyfer ariannu mwy o gynlluniau cymwys.

Cyflwynwyd dau gais am arian ychwanegol i gynlluniau sydd eisoes wedi eu cymeradwyo, er mwyn darparu gweithgareddau ychwanegol fydd yn gymwys i dderbyn arian o'r rhaglen Lluosi:

i. Cais am £212,234 o arian ychwanegol o gyllideb Lluosi i gynllun RHAGLEN GWYDNWCH CYMUNEDOL GWYNEDD gan Gyngor Gwynedd

ii. Cais am £58,000 o arian ychwanegol o gyllideb Lluosi i gynllun TÎM O AMGYLCH Y PERSON IFANC 2 gan GISDA cyf.

Mae Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd wedi argymell ymrwymo cyfanswm o £270,234 yn ychwanegol o'r arian sydd yn weddill yn nyraniad Gwynedd ar gyfer y rhaglen Lluosi o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r cynlluniau uchod.

Mae'r adroddiad yma yn adlewyrchu argymhellion y Panel.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

Prif Swyddog Cyllid:

*Mae amser cyfyngedig i ddefnyddio'r ffynhonnell arian yma, a gan fod y cynlluniau yn gymwys ar ei gyfer, rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir.*

Swyddog Monitro:

*Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb y trosglwyddiad sydd yn deillio o ymgynghoriad gyda'r Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin.*

Aelod(au) Lleol:

Ddim yn fater lleol